



**Pwyllgor Ymgynghorol Cafcass Cymru
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2019
Swyddfeydd Cafcass Cymru, Parc Cathays, Caerdydd**

Yn bresennol:

Jackie Murphy (JM)	Cadeirydd
Paul Apreda (PA)	FNF Both Parents Matter Cymru
Sarah Coldrick (SC)	AFA Cymru
Beth Flowers (BF)	Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru
Gareth Jenkins (GJ)	Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Dan Ronson (DR)	Y Cyngor Cyfryngu Teuluol
Rachel Thomas (RT)	Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru
Nigel Brown (NB)	Cafcass Cymru
Matthew Pinnell (MP)	Cafcass Cymru
Rhianon James (RJ)	Cafcass Cymru (ysgrifenyddiaeth)

1. Croeso

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. Cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

Arweiniodd y Cadeirydd gyflwyniadau o amgylch y bwrdd.

Cafwyd ymddiheuriadau gan:

Catrin Cracroft	Cynrychiolydd Cymdeithas y Cyfreithwyr
Viv Laing	NSPCC Cymru
Des Mannion	NSPCC Cymru
Sharon Lovell	NYAS Cymru
Sean Oneill	Plant yng Nghymru
James O'Reilly	Y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol
Zoe Richards	Anabledd Dysgu Cymru
Hugh Simkiss	Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi
Sue Thomas	Cymdeithas yr Ynadon

3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd 2018 – i'w cymeradwyo cyn eu cyhoeddi ar wefan Cafcass Cymru

Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir.

4. Materion yn codi

Nodwyd bod y dyddiad ar gyfer cyfarfod mis Gorffennaf wedi newid ac y bydd yn cael ei gynnal yn awr ar 9 Gorffennaf am 2.30 pm ym Mharc Cathays, Caerdydd.

5. Atgyfeiriadau a Pherfformiad

Cyfraith Gyhoeddus

Rhoddodd NB drosolwg o'r atgyfeiriadau a'r ffigurau perfformiad gan gwmpasu 1 Ebrill 2018 tan 28 Chwefror 2019. Mae'r flwyddyn hon wedi bod yn fwy cyson ar y cyfan gyda gostyngiad bach o 6%. Nodwyd bod 50% o geisiadau adran 31 yn wrandawiadau brys a nododd NB fod hyn yn creu her wirioneddol i Cafcass Cymru. Mae'r mater hwn yn cael ei drafod hefyd gan Weithgor Cyfraith Gyhoeddus y Llywydd.

Tynnodd SC sylw at y nifer mawr o achosion o fabwysiadu heb fod drwy asiantaeth. Yn dilyn trafodaeth, awgrymwyd y gallai Cafcass Cymru wneud gwaith yn y dyfodol i ddefnyddio'r wybodaeth sydd ganddo ar geisiadau mabwysiadu.

Cyfraith Breifat

Nododd NB fod gwaith cyfraith breifat wedi gweld cynnydd pellach gyda chynnydd o 5% mewn adroddiadau ymholiadau diogelu yn ystod y flwyddyn hyd yma. Mae Cafcass Cymru a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi yn gweithio'n agos iawn gyda heddluoedd ledled Cymru er mwyn sicrhau bod y gwiriadau diogelu y gofynnir amdanynt gan yr heddlu yn cael eu dychwelyd o fewn yr amserlen.

Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA)

Mae gwaith yn parhau i fynd rhagddo i wella DPA3. Mae DPA 1, 2 a 4 wedi cyflawni'r targed o 95%.

6. Adroddiad Arolygu Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Nododd NB ei fod wrth ei fodd gydag Adroddiad Arolygu AGC a diolchodd i'r Cadeirydd a'r aelodau am eu cyfraniad. Roedd yr Aelodau wedi cael copi o'r adroddiad cyn y cyfarfod a rhannodd NB drosolwg o'r canfyddiadau allweddol.

Nododd NB fod Cafcass Cymru yn paratoi ymateb i AGC gan nodi'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd mewn ymateb i'r meysydd i'w datblygu a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

Dywedodd GJ y dylai Cafcass Cymru fod yn falch iawn o'i gyflawniadau ac y dylai'r Pwyllgor Cynghori fod yn falch iawn o'i gyflawniadau hefyd. Nododd fod yr Adroddiad Arolygu yn rhoi darlun cytbwys iawn.

7. Adolygiad o Orchmynion Gwarchodaeth Arbennig (GGA) – Adroddiad Byr ac Adborth

Siaradodd SC am y papur a baratowyd gan AFA Cymru mewn perthynas â Gweithgor Gwarchodaeth Arbennig y Cyngor Cyfiawnder i Deuluoedd. Roedd yr Aelodau wedi cael copi o'r ddogfen cyn y cyfarfod.

Yn ogystal, nododd SC fod AFA Cymru wrthi'n gwneud darn o waith i Lywodraeth Cymru yn mapio fframwaith ar gyfer cymorth GGA ledled Cymru. Bydd AFA Cymru yn trafod enghreifftiau o arfer da yng Nghymru ac yn paratoi fframwaith drafft sy'n nodi 'cynnig craidd' o gymorth y gall pob teulu sydd â threfniadau gwarchodaeth arbennig ei ddisgwyl.

Yn dilyn trafodaeth fer, cytunodd yr aelodau i ddod â'r pwnc hwn i un o gyfarfodydd y dyfodol i'w drafod yn ehangach.

Diolchodd y Cadeirydd i Sarah Coldrick am ei chyflwyniad diddorol.

Cam gweithredu: Yr ysgrifenyddiaeth i gynnwys yr eitem hon ar agenda yn y dyfodol

8. Ffrydiau Gwaith Cyfraith Breifat – Cyfraith Gyhoeddus Llywydd yr Adran Deulu

Rhoddodd NB y diweddaraf am Ffrydiau Gwaith Cyfraith Breifat a Chyhoeddus y Llywydd. Mae'r nifer mawr o geisiadau cyfraith breifat a chyhoeddus i'r Llys Teulu ac absenoldeb y posibilrwydd o ddeddfwriaeth newydd i ddiwygio'r System Cyfiawnder Teuluol, wedi achosi i Lywydd yr Adran Deulu, Syr Andrew McFarlane, sefydlu dau weithgor i drafod pa gyfleoedd sydd ar gael ar gyfer gwelliannau o fewn y fframweithiau presennol ar gyfer cyfraith gyhoeddus a phreifat. Bydd y ddau grŵp yn adrodd yn ôl iddo erbyn diwedd mis Ebrill yn barod ar gyfer cynhadledd y Llywydd ym mis Mai, gyda'r bwriad y bydd y Llywydd yn treulio'r haf yn ystyried y dystiolaeth ac yn cyhoeddi canllawiau ar ddiwedd y flwyddyn.

Nododd NB ei fod wedi mynd i'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol ar 21 Ionawr yn Llundain lle roedd y drafodaeth wedi canolbwyntio ar yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol a Dargedwyd (TFJR) a gynhaliwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Cafodd y TFJR ei gomisiynu mewn ymateb i'r cynnydd mewn ceisiadau gofal ac amrywiad o ran cyfraddau cyhoeddi rhwng awdurdodau lleol. Gan weithio gyda sawl awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr, mae wedi datblygu wyth cynnig sy'n canolbwyntio i raddau helaeth ar ddylanwadu ar ymddygiad a newid arferion o fewn rhannau amrywiol y System Cyfiawnder Teuluol. Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn datblygu'r cynigion hyn ac yn datblygu rhaglen waith ar y cyd ag aelodau o'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol.

Yn dilyn trafodaeth fer, cytunodd yr aelodau i ddod â'r pwnc hwn i un o gyfarfodydd y dyfodol i'w drafod yn ehangach.

Cam gweithredu: Yr ysgrifenyddiaeth i gynnwys yr eitem hon ar agenda yn y dyfodol

Yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Cynghori, cytunodd MP i wahodd rhywun o FJO i roi trosolwg o'r FJO a phrosiect SAIL i aelodau o'r Pwyllgor. Roedd disgwyl i'r Athro Karen Broadhurst ddod i'r cyfarfod heddiw i gyflwyno adroddiad ar waith yr FJO ond nid oedd yn gallu bod yn bresennol. Fodd bynnag, mae wedi cadarnhau y bydd yn dod i'r cyfarfod ar 6 Tachwedd.

Er mwyn cefnogi gwaith yr FJO mae Sefydliad Nuffield wedi cytuno i gyllido Gwasanaeth Llwyfan a Dadansoddi Data (DPAS). Bydd hyn yn cynnwys trosglwyddo ac argaeledd data dienw y gellir eu defnyddio gan ymchwilwyr ar gyfer ymholi system gyfan ystyrlon ar draws materion allweddol. Mae Cafcass Cymru a Cafcass (Lloegr) wrthi'n gweithio gyda'r FJO i drosglwyddo data gweinyddol y sefydliad i Gronfa Ddata SAIL ym Mhrifysgol Abertawe. .

Cam gweithredu: Yr Ysgrifenyddiaeth i gynnwys yr eitem hon ar yr agenda ar gyfer 6 Tachwedd.

9. Dysgu a Gwella Sicrwydd Ansawdd (QALI) – Crynodeb o'r Adolygiad Ymarfer

Yn y cyfarfod diwethaf, gofynnodd aelodau'r Pwyllgor a allent edrych ar sut y mae adolygiadau ansawdd yn cael eu cwblhau. Paratôdd Suzanne Burgoyne (SB), Pennaeth Gweithrediadau, Gogledd Cymru, Grynoded o'r Adolygiad Ymarfer a chafodd copïau eu hanfon at yr aelodau cyn y cyfarfod hwn. Bydd yn rhoi cyflwyniad manwl i'r aelodau yn y Pwyllgor Cynghori nesaf ar 9 Gorffennaf.

Cam gweithredu: Yr Ysgrifenyddiaeth i gynnwys yr eitem hon ar yr agenda ar gyfer 9 Gorffennaf.

10. Unrhyw Fater Arall

- **Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru**

Dywedodd NB wrth yr aelodau fod Prif Weinidog blaenorol Cymru wedi sefydlu Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru ym mis Medi 2017 i adolygu'r ffordd y mae'r system gyfiawnder yn cael ei gweithredu yng Nghymru. Mae'r Comisiwn wedi bod yn cymryd tystiolaeth gan amrywiaeth o randdeiliaid a chadarnhaodd NB iddo roi tystiolaeth i'r Comisiwn ar 1 Chwefror.

11. Dyddiadau ar gyfer 2019

Cafodd y dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd 2019 eu cadarnhau fel a ganlyn:

9 Gorffennaf 2019 – 14:30 – 16:30

6 Tachwedd 2019 – 09:30 – 11:30

Caiff pob cyfarfod ei gynnal yng Nghaerdydd.

Diolchodd y Cadeirydd i aelodau Pwyllgor Cynghori Cafcass Cymru am eu cyfraniad gwerthfawr i'r cyfarfod.

TAFLEN CAMAU GWEITHREDU

Rhif yr eitem ar yr agenda	Cam gweithredu	Arweinydd
Eitem 7 – Adolygiad o Orchmynion Gwarchodaeth Arbennig (GGA) – Adroddiad Byr ac Adborth	I gynnwys yr eitem hon ar agenda yn y dyfodol i'w thrafod yn ehangach.	Ysgrifenyddiaeth
Eitem 8 – Ffrydiau Gwaith Cyfraith Breifat a Chyfraith Gyhoeddus Llywydd yr Adran Deulu	I gynnwys yr eitem hon ar agenda yn y dyfodol i'w thrafod yn ehangach.	Ysgrifenyddiaeth
Eitem 9 – Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol (FJO) / Prosiect Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL)	Yr Ysgrifenyddiaeth i gynnwys yr eitem hon ar yr agenda ar gyfer 6 Tachwedd 2019	Ysgrifenyddiaeth
Eitem 10 – Dysgu a Gwella Sicrwydd Ansawdd (QALI) – Crynodeb o'r Adolygiad Ymarfer	I gynnwys yr eitem hon ar yr agenda ar gyfer 9 Gorffennaf 2019	Ysgrifenyddiaeth